ADRODDIAD CYNHADLEDD YR HAF

Dyddiad a Lleoliad
Cynhaliwyd y Gynhadledd ar ddydd Sadwrn 16 Mehefin 2007 yn Neuadd Sir Powys, Llandrindod.

Cyfranogwyr
Gwahoddwyd Cymdeithasau Llywodraethwyr Lleol a grwpiau ledled Cymru i anfon tri chynrychiolydd i'r gynhadledd. Gwahoddwyd Cyfarwyddwyr Addysg AALl a Chynghorwyr gyda phortffolio addysg neu eu cynrychiolwyr hefyd. Ynghyd â gwesteion eraill, daeth cyfanswm o 53 i'r Gynhadledd.

Thema
Thema'r Gynhadledd oedd 'Ysgolion Bro'.

Cyflwyniadau
Prif Anerchiad
Mike Keating, Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Dywedodd Mike Keating bod ffocws cymunedol wedi bod yn nodwedd o ddatblygiad addysg ers yr 1920au. Cyfeiriodd at enghreifftiau ymarferol o'r fenter yn ei Awdurdod, Rhondda Cynon Taf, ac yng nghwrs ei araith trafododd y pedwar maes canlynol:

Cefndir ac Egwyddorion
Dylai ysgol effeithiol fod yn gweithio tuag at:

- Cynyddu cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol i bawb trwy ddarparu'r modd o gael gafael ar ragor o

gyfleoedd.
- Darparu agwedd mwy cynhwysfawr a holistaidd tuag at anghenion plant, oedolion ifanc a'u teuluoedd a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.
- Darparu gwasanaethau ychwanegol na fyddent fel rheol ar gael yn lleol trwy ddatblygu ysgol y tu hwnt i'w defnydd traddodiadol
- Gweithio gyda'i chymuned fel elfen bwysig o godi safonau i bawb.
- Creu partneriaethau gyda chyrff eraill sydd yn gallu cyfrannu tuag at addysg disgyblion.
- Helpu i gryfhau'r gymuned trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes, datblygiad personol a chyfleoedd chwaraeon, artistig a diwylliannol
- Gwasanaethu teuluoedd y disgyblion yn ogystal â busnesau lleol, grwpiau gwirfoddol ac unigolion sydd yn byw ac yn gweithio yng nghymuned yr ysgol.

Ysgolion Bro yn Gweithio

Gall elfennau ymarferol ysgol fro fod yn amrywiol a bydd yn dibynnu ar natur y gymuned a'r wybodaeth sydd gan yr ysgol am ei chymuned. Ond gellir enwi rhai elfennau allweddol:

- Cysylltiadau Cartref-Ysgol
- Darpariaeth cyn oedran ysgol
- Addysg teulu ac oedolion
- Cwricwlwm
- Y defnydd o adnoddau

Yr Agenda Gyfredol

Rhaid ystyried y saith nod craidd o Hawliau i Weithredu:

- Cychwyn teg i fywyd.
- Amrediad cynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu.
- Mwynhau'r iechyd gorau posibl yn rhydd o gamdriniaeth, erlyn a chamddefnydd.
- Modd o gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden chwaraeon a diwylliannol.
- Cael gwrandawiad, trin â pharch a chydnabyddiaeth i'w hil a hunaniaeth diwylliannol.
- Cartref a chymuned diogel sydd yn cefnogi lles corfforol ac emosiynol.
- Heb anfantais oherwydd tlodi

Yr allwedd yw tynnu, adnabod a datgan y canlyniadau sydd yn deillio o bob nod yn glir. Yna y dasg yw adnabod rôl yr ysgol fro a bod yn glir ynglyn â'r canlyniadau y gellir eu cyflawni a hefyd am y ffyrdd y gall yr ysgol gyfrannu at y darlun ehangach.

Oblygiadau i Lywodraethwyr

Mae gan lywodraethwyr rôl hanfodol mewn darparu arweinyddiaeth, gweledigaeth a chefnogaeth i ysgolion sydd yn datblygu fel ysgolion bro. Mewn sawl achos, bydd llywodraethwyr yn cynnig y parhad hwnnw pan fo penaethiaid, sydd yn hynod o ymrwymedig i agwedd ysgolion estynedig, yn gadael. Mae rolau eraill yn cynnwys monitro a chadw gorolwg barhaus ar y gweithgareddau estynedig, efallai fel rhan o grwp llywio; helpu i ddarganfod ffynonellau cyllid ychwanegol ar gyfer mentrau, diogelu'r gyllideb ddirprwyedig, cael yswiriant addas a phenodi staff ychwanegol.

Bydd angen i Lywodraethwyr hefyd gymryd i ystyriaeth pwy sydd ynghlwm â hyn ac o natur yr ysgol. Nodweddion allweddol ysgol fro yw:

- Ysgol sydd yn gwrando

- Digon o bartneriaid
- Iach
- Datganoli arweinyddiaeth
- Ail fodelu'r gweithlu.

Datblygiadau a Strategaeth Bro yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin

(a) Cefnogi Ysgolion Bro a Gweithio mewn Clwstwr
Gwyn Thomas, Cydlynydd Bro

Dechreuodd Gwyn Thomas trwy ofyn y cwestiwn, " Beth yw ysgol?"
O ran amser, rheolaeth a chyllid.
Yna aeth ymlaen i awgrymu:

- Nid oes glasbrint ar gyfer y mathau o weithgarwch y gall ysgolion bro eu darparu na sut y gellir eu trefnu
- Wrth weithio gyda phartneriaid gall ysgolion ddatblygu cyn lleied neu cymaint o ddarpariaeth ag y maent yn meddwl sydd yn addas i'w cymuned eu hunain
- Mae arbrofi yn beth da

Dyfynnodd y nodweddion cadarnhaol canlynol o ysgolion bro:-

- Cyfranogiad yr ysgol yn y gymuned
- Datblygiad staff
- Diwrnod estynedig i'r disgyblion gydag amrediad eang o weithgareddau
- Profiadau a sgiliau newydd i'r disgyblion a'r gymuned
- Diwallu anghenion myfyrwyr bregus
- Cyfranogiad myfyrwyr o ysgolion cyfagos yn nhrydydd sesiwn y dydd
- Defnyddio cyfleusterau'r ysgol yn helaeth
- Mannau tawel i ddisgyblion weithio
- Staff yn gweithio mewn rolau gwahanol
- Hyrwyddo ymddygiad cyfrifol a chymhelliant i ddisgyblion a staff
- Datblygiad cymdeithasol disgyblion
- Codi safonau

I symud ymlaen bydd angen:-

- Cynnwys ysgolion bro mewn cyrsiau addysg cymunedol yr Awdurdod Lleol
- Cydlynu partneriaeth sir gyfan
- Darparu cyfleoedd i wella sgiliau yn cynnwys achredu
- Cynnwys cyrff sirol ac ardal eraill
- Parhau i gyllido ysgolion bro
- Gwell partneriaeth gyda gwasanaethau hamdden
- Gwasanaethau swyddog bro
- Parhau i weithio mewn partneriaeth
- Cynnwys gweithiwr ieuenctid mewn modd sensitif gyda phobl ifanc
- Ysgolion bro fel 'offeryn' i hwyluso pontio
- Cyfranogiad nifer o asiantaethau
- Ymestyn i gynnwys cyfleoedd dysgu gydol oes
- Cynnwys y sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau a chael gafael ar gyllid

I gloi cyflwynodd y cysyniad o **'gymunedau dysgu'** lle mae cymunedau cyfan yn rhan o ysgolion bro a lle nad yw ysgolion bro yn fenter ond yn hytrach yn ffordd newydd o feddwl am sut y caiff cyfleoedd dysgu eu darparu ar gyfer pawb.

(b) Datblygiadau yn cynnwys ysgol uwchradd wledig a'i phartneriaid cynradd
Carol Dyer, Pennaeth Cynradd Ymgynghorol

Disgrifiodd Carol Dyer sefydlu cynllun oedd yn dwyn ysgol uwchradd a saith ysgol gynradd ynghyd mewn prosiect gyda chyllid blynyddol o tua £20,000. Yn ei hanfod diben y cynllun yw hyrwyddo cydweithio a sicrhau cyfleoedd i bawb.

Roedd y grwp yn cynnwys Menter Bro Dinefwr (corff gwirfoddol) yn gynnar i:-

- Sicrhau cydweithio agos rhwng ysgolion a chymunedau lleol
- Dyfeisio rhaglen o weithgareddau
- Rheoli'r gweithgarwch
- Darparu rhai gweithgareddau
- Cydlynu'r cynllun
- Darparu gweinyddiaeth ariannol

Darparodd y cynllun y gweithgareddau canlynol:-

- Diddanwyr proffesiynol
- Miri'r Nadolig (gweithgarwch i'r teulu)
- Gweithgarwch yr Urdd
- Gwaith gyda chlybiau ar ôl ysgol
- Cynllun peilot ysgol unigol (Llangadog)
- Theatr ieuenctid a phlant
- Amrywiol dripiau uwchradd
- Pob math o weithdai

I gloi cynorthwyodd y prosiect gyda datblygiad partneriaethau cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol a busnes a sector preifat.

(c) Datblygiadau mewn Ysgol Gyfun
Paul Jones, Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gyfun Bryngwyn

Cyflwynodd Paul Jones y fenter ym Mryngwyn lle mae'r ysgol mewn partneriaeth â nifer o asiantaethau er mwyn gwella cyfleoedd a lles plant, pobl ifanc a theuluoedd o fewn y gymuned ehangach. Wrth galon y fenter y mae Parth Ieuenctid Bryngwyn, fframwaith hyblyg a chanolbwynt i ddarparu bwydlen newidiol o weithgareddau dysgu, sgiliau, hamdden a phontio.

Yn gryno mae'r ysgol wedi:-

- Newid y diwrnod ysgol i orffen yn gynnar a diwrnod 'trydydd sesiwn'
- Newid hinsawdd yr ysgol, mae Parth Ieuenctid Bryngwyn yn 'gyflwr meddwl' yn hytrach nag agwedd gorfforol. Mae'n fwy na defnydd deuol. Mae wedi ei wreiddio yn hytrach na'i ychwanegu.
- Swyddog datblygu cymunedol sydd yn hanfodol i'r gwaith

- Datblygu'r Parth Ieuenctid i hyrwyddo datblygiadau
- Wedi cael arolwg llawn gydag Ysgol Fro ar y blaen ac wedi derbyn statws 'nodwedd eithriadol'

Dyma'r manteision:-

- Effaith gadarnhaol ar gysylltiadau gyda disgyblion
- Effaith gadarnhaol ar gysylltiadau gyda rhieni/gofalwyr yn gyffredinol
- Gwahaniaeth cadarnhaol ar gymuned yr ysgol
- Y disgyblion sydd yn berchen ar y fenter Parth Ieuenctid
- mae sesiynau blasu gweithgarwch 'allan o oriau'yn bosibl
- mentora gan gyfoedion
- mwy o ymwybyddiaeth am faterion amgylcheddol a diogelwch
- creu undeb credyd
- pwynt mynediad naturiol i asiantaethau allanol

mae sialensau, h.y..:-

- cyllido
- cynaliadwyaeth
- materion yn ymwneud â'r eiddo
- oblygiadau gwahaniaethu ar sail anabledd
- materion personel
- iechyd a diogelwch
- cystadleuaeth a gorgyffwrdd
- materion cyllid cymunedol
- cludiant

Gweledigaeth:-

- datblygu'r agwedd 'teulu o ysgolion'
- gwella cyfranogiad gwasanaethau cymunedol, cyrff gwirfoddol a'r heddlu
- gwasanaethau cynghori
- ffordd o fyw iach a chwaraeon
- gwell cyfranogiad a chefnogaeth rhieni
- integreiddio gwasanaethau plant ar y safle
- canolfan llyfrgell a dysgu
- cyngor dinasyddion
- cyfleoedd galwedigaethol a dysgu gydol oes ar y safle
- iechyd y teulu
- defnydd gwasanaethau cymdeithasol

Sesiynau Gweithdy

Canolbwyntiodd y tair sesiwn gweithdy ar rôl llywodraethwyr ysgolion mewn datblygiadau ysgolion bro. Codwyd y pwyntiau canlynol yn y sesiynau gweithdy:

Grwp 1 (dan arweiniad Gwyn Thomas a Paul Jones, Cyngor Sir Gaerfyrddin)

pwysigrwydd rheoli newid.
gweithio ar gyflymdra sydd yn briodol i'r ysgol/cymuned.
cyllido.

oblygiadau ymarferol h.y. iechyd a diogelwch, gwiriadau CRB, yswiriant, Deddf Gwahaniaethau ar sail Anabledd
angen osgoi cystadleuaeth/dyblygu/gorgyffwrdd – angen archwilio, cynllun datblygu - CDY. partneriaethau ar bob lefel sydd yn gynaliadwy. Angen cydweithrediad rhyng asiantaeth. Angen hefyd gwerthfawrogi pob partner yng nghymuned yr ysgol.

Grwp 2 (dan arweiniad Ian Bottrill, Contin You Cymru)

llawer yn digwydd – nid yn unig cyllid ysgolion bro, prosiectau yn yr ysgolion.
goresgyn amharodrwydd eraill trwy newid y diwylliant
os na chaiff arian ei glustnodi, pryderon na chaiff ei ddefnyddio fel y bwriadwyd.
pwysau ar benaethiaid – angen dirprwyo a chefnogaeth ar gyfer prosiectau a synhiadau newydd.

Grwp 3 (dan arweiniad Heledd James, Contin You Cymru)

bydd ffocws cymunedol yn unigryw i bob ysgol, nid oes rhywbeth cyffredinol ar gyfer pawb.
mae cyfranogiad lleol yn bwysig – rhaid cael agweddau cymharol gadarnhaol rhwng yr ysgol a'r gymuned leol.
mae angen arweinyddiaeth ysbrydoledig ac ymrwymiad proffesiynol clir.
pryderon ynglyn â llywodraethwyr yn arwain arno
dylai llywodraethwyr ei gynnwys yn eu rôl strategol gyffredinol
cwestiynau difrifol am lwyth gwaith athrawon

Holiaduron Gwerthuso

Derbyniwyd 22 holiadur
Dywedodd y mwyafrif fod y gynhadledd wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi rhoi gwybodaeth iddynt.
Ceir dadansoddiad manwl isod:-

Oedd y gynhadledd yn ddefnyddiol ac a ddysgoch rhywbeth?

Oedd 21 Nac Oedd 0 I rhyw raddau 1

Rhesymau (enghreifftiau):

- Sgyrsiau da a defnyddiol gyda llywodraethwyr eraill a swyddogion AALl. Pwnc y gynhadledd wedi ei drafod mewn digwyddiadau eraill.
- llawn gwybodaeth a chanolbwyntio'r meddwl.
- pwnc perthnasol iawn wedi'i gyflwyno'n dda.
- y darn gorau oedd strategaeth a chyd-destun ac enghreifftiau ymarferol o ysgolion bro.
- sgyrsiau perthnasol gan yr holl siaradwyr – cynnwys da – cyfleoedd rhwydweithio da.
- enghreifftiau go iawn o ysgolion bro yn gweithio.
- amrediad da o siaradwyr – canolbwyntio ar un thema.
- dysgu am gefndir a dealltwriaeth am nodau/amcanion Llywodraethwyr Cymru, personoliaethau, cyfrifoldebau, atebolrwydd etc.
- defnydd o'r ysgol fel cyfleuster cymunedol yn creu pryderon yn yr ysgol lle rwyf yn llywodraethwr.
- diddorol clywed am faterion yng Nghymru yn dod o Loegr – cymaint yn gyffredin ond gwahaniaethau hefyd
- enghreifftiau defnyddiol o ymarfer da.
- amrywiaeth dda o gyfraniadau a safbwyntiau.
- cydraddoldeb mewn popeth.
- tra'n gefnogol i ysgolion bro, dim sôn am 'rybudd iechyd' o ran rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd llywodraethwyr (cyfreithiol etc)
- cyflwyniadau o ansawdd da a rhannu barn.
- cyflwyniad da a diddorol – da iawn.

Pa ran o'r gweithdy oedd fwyaf diddorol?
Prif anerchiad 7 Cyflwyniadau 9 Gweithdai 4

Rhesymau:
- diffyg cysondeb rhwng agenda ysgolion bro a ffynonellau cyllido lluosog yn broblem allweddol. Cafodd rôl llywodraethwyr mewn ysgolion bro ei anwybyddu yn y gweithdy.
- bywiog.
- y cyfan – methu gwahaniaethu
- enghreifftiau ymarferol o beth y gellid ei wneud.
- mwyaf ymarferol o ran syniadau, cyngor a thrafodaeth.
- y gweithdy yn ddefnyddiol iawn. Ateb pob cwestiwn a godwyd yn drylwyr.
- y cyfan yr un mor werthfawr a defnyddiol. Wedi'i gyflwyno'n dda ac yn ddiddorol.
- anerchiad ardderchog a chyflwyniadau da.
- yr anerchiad amserol a'r cyflwyniadau yn dda.
- y cyfan o'm safbwynt i.
- y cyfan yr un mor ddefnyddiol.
- roedd y 3 yn dda iawn. Trafodaeth ddefnyddiol yn y gweithdy ac roedd y prif anerchiad yn ddiddorol iawn.
- cyfraniadau pobl broffesiynol yn gweithio ar y llawr
- cyflwyniadau a gweithdai – mwy o allbwn na mewnbwn!
- astudiaethau achos o beth sy'n digwydd go iawn.
- y cyfan yn chwarae rhan gwerthfawr.
- 3 cyflwyniad cytbwys, y pynciau hefyd yn bwysig.

Beth oedd eich barn am y lleoliad a'r cyfleusterau?

	ardderchog	**da**	**gweddol**	**gwael**	**gwael iawn**
ardal	12	8	1		
lleoliad	11	5			
lluniaeth	13	8			

Noder unrhyw sylwadau cyffredinol neu rhestrwch fanylion cyswllt os hoffech dderbyn unrhyw wybodaeth bellach am Lywodraethwyr Cymru:

- cydbwysedd rhwng y cyflwyniadau a'r gweithdai braidd yn anghytbwys – dim digon o amser i'r gweithdy.
- nid yw Llandrindod yn mynd i ddenu cynrychiolwyr o Ogledd Cymru – tair awr ar y ffordd!
- roedd y gweithdai yn dda ond gellid fod wedi cael mwy o ryngweithio.

Pynciau ar gyfer cynadleddau Llywodraethwyr Cymru yn y dyfodol (croesewir awgrymiadau)

- OSHL
- delio gyda chynnydd mewn trais mewn ysgolion. Agwedd safonol.
- cyfnod sylfaen a chwricwlwm yn seiliedig ar sgiliau.
- y system arholiadau, y dyfodol, lefel A/Bagoriaeth?; creu safonau; costau prifysgol; dylanwad allanol ar addysg (gweler Sue Williams "Toxic Childhood"); cyfleusterau chwaraeon, defnyddio tedchnoleg (dysgu trwy fideo/cysylltu ysgolion)
- mewn dwy flynedd 'ysgolion bro yn aeddfedu'
- iechyd a diogelwch – diogelu'r ysgol a'i disgyblion/staff y nein defnydd o'r ysgol yn y gymuned.

<u>Casgliad</u>

Cyflawnodd y Gynhadledd ei nod o alluogi cyfranogwyr i archwilio'r pynciau canlynol yn ymwneud ag ysgolion bro

- persbectif cenedlaethol ysgolion bro
- rôl llywodraethwyr ysgolion mewn datblygiadau ysgolion bro
- pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth
- tynnu ar ymarfer da/astudiaethau achos mewn perthynas ag ysgolion bro

Mae Llywodraethwyr Cymru yn bwriadu adeiladu ar y Gynhadledd lwyddiannus hon ac yn gobeithio cynnal digwyddiadau rhanbarthol i helpu i greu rhwydwaith o lywodraethwyr a fyddai'n hoffi ymwneud â Llywodraethwyr Cymru.

Mae fforymau anffurfiol o lywodraethwyr yn ogystal â ffederasiynau a chymdeithasau llywodraethwyr wedi eu sefydlu mewn sawl awdurdod. Er hynny byddai Llywodraethwyr Cymru yn croesawu rhagor o lywodraethwyr o bob rhan o Gymru i gymryd rhan ac i fynegi barn a hoffem glywed gan unrhyw un fyddai'n hoffi cymryd rhan mewn unrhyw drefniadau lleol i lywodraethwyr. Cysylltwch â swyddfa Llywodraethwyr Cymru trwy ffonio (029 20487858) neu â Janet Jones – Swyddog Datblygu (Gogledd) ar 01745 859580 neu â Mike Barker (De) – Swyddog Datblygu ar 07866 453857 os hoffech ragor o wybodaeth.

BYDD Y TAFLENNI A DDOSBARTHWYD YN Y GYNHADLEDD AR GAEL AR WEFAN LLYWODRAETHWYR CYMRU: www.governorswales.org.uk neu gellir gofyn amdanynt ar e-bost governorswales@btconnect.com neu trwy ffonio. 029 2048 7858

GOVERNORS WALES
LLYWODRAETHWYR CYMRU
HELPLINE
0845 6020100
LLINELL GYMORTH
www.governorswales.org.uk
www.llywodraethwyrcymru.org.uk